# Adolygiad o Drefniadau Arbed Costau – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Blwyddyn archwilio: 2023

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4648A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg. This document is also available in Welsh.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Amcanion a chwmpas ein gwaith | 4 |
| Canfyddiadau allweddol | 5 |
| Argymhellion | 10 |
| Atodiad 1 – Dulliau archwilio | 13 |
| Atodiad 2 – Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio | 15 |

# Cyflwyniad

1 Mae GIG Cymru yn wynebu heriau ariannol digynsail. Mae gwaddol pandemig COVID-19 ar alw gwasanaethau, y costau cynyddol sy'n gysylltiedig â staffio, ynni, meddyginiaethau, cynnal ystad sy'n heneiddio; a mynd i'r afael â'r cyflyrau iechyd cynyddol gymhleth sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio i gyd yn cyfrannu at y sefyllfa ariannol sy'n gwaethygu ar draws y GIG.

2 Er bod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod £425 miliwn ychwanegol ar gael i'r GIG ym mis Hydref 2023, roedd sefyllfa archwiliedig diwedd blwyddyn 2023-24 ar gyfer GIG Cymru yn ddiffyg cyfunol o £183 miliwn. Er bod rhai cyrff GIG yn gallu cyflawni balans ariannol diwedd blwyddyn, roedd y sefyllfa i eraill - yn enwedig rhai Byrddau Iechyd - yn heriol, gyda nifer yn methu cyflawni'r cyfanswm rheoli diffyg a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru.

3 Mae'r sefyllfa ar gyfer 2024-25 yr un mor heriol, os nad yn fwy heriol. Bydd angen i gyrff iechyd sicrhau bod ganddynt ddulliau cadarn ar waith i nodi a chyflawni cyfleoedd gwella costau yn ystod y flwyddyn a hefyd i fabwysiadu dull tymor hwy o ran sicrhau cynaliadwyedd ariannol sy'n symud i ffwrdd o ddulliau tymor byr i rai lle cyflawnir arbedion trwy drawsnewid modelau gwasanaeth a ffyrdd o weithio.

# Amcanion a chwmpas ein gwaith

4 O ystyried yr heriau a amlinellir uchod, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ymgymryd â rhaglen waith sy'n archwilio dulliau cyrff y GIG o nodi, cyflawni a monitro cyfleoedd arbedion costau cynaliadwy. Er bod ein gwaith manylach wedi'i anelu at fyrddau iechyd, rydym hefyd wedi gwneud gwaith lefel uchel mewn Awdurdodau Iechyd Arbennig ac Ymddiriedolaethau'r GIG, sy'n gysylltiedig â swyddogaethau penodol y cyrff hynny. Mae canfyddiadau ein gwaith ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd) wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn.

5 Gwnaed y gwaith i gyflawni dyletswydd statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fod yn fodlon bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

6 Mae'r adolygiad hwn yn adeiladu ar ein Hadolygiad o Drefniadau Arbedion Effeithlonrwydd 2022 a oedd yn cynnwys naw argymhelliad. Mae'r argymhellion hynny bellach wedi'u disodli gan argymhellion yr adolygiad cyfredol hwn fel y manylir arnynt yn **Arddangosyn 2**.

7 Gwnaethom ein gwaith rhwng mis Chwefror 2024 a mis Mai 2024. Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith wedi'u crynhoi yn **Atodiad 1**.

## Canfyddiadau allweddol

8 Ar y cyfan, canfuom **er nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei gyfanswm rheoli diffyg na'i darged arbedion ar gyfer 2023-24, roedd wedi cyflawni llawer mwy o arbedion nag mewn blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, mae ei sefyllfa ariannol yn parhau i fod yn heriol iawn. O ganlyniad, mae angen iddo ddatblygu cynllun ariannol tymor hwy ar frys sy'n canolbwyntio ar gyflawni arbedion rheolaidd o newid trawsnewidiol i wasanaethau, ac ymgorffori ymhellach ei ddull arbedion trwy ei Fwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd i gryfhau ei drefniadau arbedion a sicrhau nad yw ei sefyllfa ariannol yn dirywio ymhellach.**

9 Mae'r canfyddiadau sy'n cefnogi ein casgliad cyffredinol wedi'u crynhoi isod o dan y penawdau canlynol:

- Nodi cyfleoedd gwella costau
- Cyflawni cyfleoedd gwella costau
- Monitro a goruchwylio cyfleoedd gwella costau

### Nodi cyfleoedd gwella costau

10 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau clir ar waith ar gyfer nodi a dadansoddi'r meysydd sy'n ysgogi ei gostau yn y tymor byr i'r tymor canolig, sef taliadau amrywiol (asiantaeth, banc, a locwm), Gofal Iechyd Parhaus, rhagnodi, ynni, oedi wrth drosglwyddo gofal, twf yn y galw am wasanaethau canser, darparu gwasanaethau diogel, a heriau galw a chapasiti mwy cyffredinol. Er gwaethaf hyn, methodd y Bwrdd Iechyd â chyrraedd ei darged rheoli diffyg o £13 miliwn ar gyfer 2023-24, gan adrodd yn hytrach am ddiffyg alldro diwedd blwyddyn o £49.8 miliwn. Parhaodd y meysydd cost uchel hyn i fod yn gyfranwyr allweddol at ddiffyg sylfaenol sylweddol agoriadol y Bwrdd Iechyd o £81.4 miliwn ar gyfer 2024-25.

11 Mae Cynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2024-25 yn rhagweld diffyg o £48.9 miliwn, sydd £36.9 miliwn yn uwch na’r cyfanswm rheoli diffyg a gytunwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ar ddiwedd mis Awst 2024, roedd y Bwrdd Iechyd yn rhagweld diffyg cyffredinol yn ystod y flwyddyn o £47.9 miliwn, sy'n welliant o £1 miliwn yn erbyn ei gynllun a gyflwynwyd. O ystyried yr heriau ariannol sylweddol hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu cynllun adfer tair blynedd fel rhan o fap llwybr tuag at gynaliadwyedd y cytunwyd arno (gweler **paragraff 19**). Er bod hyn yn gadarnhaol, mae angen i'r Bwrdd Iechyd hefyd ddatblygu cynlluniau ariannol hirdymor cadarn (ochr yn ochr â'i strategaethau trefnu a chlinigol hirdymor) i roi sicrwydd bod ganddo fframwaith clir yn y cynllun ar gyfer nodi, lliniaru a rheoli ei ysgogwyr cost sylweddol y tu hwnt i 2026-27. **(Cyfeiriwch at yr argymhelliad ar gynllunio ariannol hirdymor yn ein Hadroddiad Asesu Strwythuredig 2024)**

12 Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau data i ddadansoddi a nodi cyfleoedd arbedion. Mae hon yn elfen allweddol o waith Bwrdd

Gwerth a Chynaliadwyedd y Bwrdd Iechyd, sy'n cyfarfod bob pythefnos i ystyried cynnydd ar draws ffrydiau gwaith arbedion wedi'u diffinio (megis y gweithlu, rheoli meddyginiaethau, ac ailgynllunio gwasanaethau) gan ddefnyddio data o CHKS[1], VAULT[2], adolygiadau GIRFT[3], ac archwiliadau. Mae'r cyfleoedd a nodwyd yn cael eu cynnwys yng Nghonpendiwm[4] y Bwrdd Iechyd sy'n darparu storfa ganolog ar gyfer nodi a monitro cynnydd ar gyfleoedd arbedion cenedlaethol a lleol. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd a nodwyd yn y Compendiwm yn canolbwyntio'n bennaf ar gyflawni arbedion yn y tymor byr yn hytrach nag arbedion tymor hwy sydd wedi'u nodi o newid trawsnewidiol yn y gwasanaeth o fewn y Bwrdd Iechyd. At hynny, nid yw'r Compendiwm wedi'i ddefnyddio'n llawn ar draws pob rhan o'r Bwrdd Iechyd. Felly, mae angen gwaith ychwanegol i sicrhau bod pob maes gwasanaeth yn defnyddio ac yn gwireddu manteision llawn posibl y Compendiwm. **(Argymhelliad 1)**

13 Er bod gan y Bwrdd Iechyd ddull diffiniedig ar waith ar gyfer ceisio, casglu ac asesu cyfleoedd arbedion costau ac arfer gorau gan staff, nid yw'n glir i ba raddau y mae'r syniadau a'r awgrymiadau hyn wedyn yn dod yn gynlluniau arbedion wedi'u ffurfio'n llawn. Hefyd, nid yw'r graddau y mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio awgrymiadau a syniadau arbedion oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill fel mater o drefn yn aneglur. **(Argymhellion 2.1 a 2.2)**

14 Mae Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd y Bwrdd Iechyd yn goruchwylio trefniadau'r sefydliad ar gyfer nodi ac asesu goblygiadau ansawdd cynlluniau arbedion. Mae lefel y manylion sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad effaith ansawdd yn dibynnu ar raddfa'r cynllun a'i effaith debygol ar gleifion, amcanion y Bwrdd Iechyd a phartneriaid. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn datblygu mecanweithiau eraill i asesu effaith, risgiau a buddion ar gyfer cynlluniau arbedion sy'n gofyn am fuddsoddiad, fel ei Banel Cyn-fuddsoddi. Er gwaethaf y prosesau diffiniedig hyn, mae anghysondeb yn y graddau y maent wedi cael eu defnyddio'n rheolaidd ar draws yr holl gynlluniau arbedion a nodwyd. **(Argymhelliad 3)**

## Cyflawni cyfleoedd gwella costau

15 Fel y dangosir yn **Arddangosyn 1**, mae gan y Bwrdd Iechyd hanes amrywiol o gyflawni ei dargedau arbedion cyffredinol a chylchol. Er i'r Bwrdd Iechyd gyflawni llawer mwy o arbedion yn 2023-24 nag yr oedd wedi'i gyflawni mewn blynyddoedd

[1] Darparwr gwasanaethau gwybodaeth, meincnodi a gwella ansawdd gofal iechyd yw Caspe Healthcare Knowledge Systems (CHKS).

[2] Rheolir y Pecyn Cymorth Gwerth, Dyrannu, Defnyddio a Dysgu (VAULT) gan Weithrediaeth y GIG i gynorthwyo a gwella defnydd o adnoddau ar draws GIG Cymru.

[3] Rhaglen â'r bwriad o wella triniaeth a gofal cleifion trwy adolygiadau trylwyr o wasanaethau, meincnodi, a chyflwyno sail dystiolaeth wedi'i hysgogi gan ddata i gefnogi newid yw Gwneud Pethau'n Iawn y Tro Cyntaf (GiRFT).

[4] Compendiwm – Storfa'r Bwrdd Iechyd ar gyfer syniadau a mentrau arbedion ac effeithlonrwydd, sydd wedi'u tynnu o amrywiaeth eang o ffynonellau.

blaenorol, mae cyflawni arbedion cyffredinol, ac arbedion cylchol yn benodol, yn parhau i gyflwyno her ac mae’n effeithio ar allu'r Bwrdd Iechyd i gyflawni ei sefyllfa ddiwedd blwyddyn ofynnol. **(Argymhelliad 1)**

**Arddangosyn 1 – hanes arbedion y Bwrdd Iechyd rhwng 2018 a 2024**

| Blwyddyn | Targed Arbedion Cyffredinol £(M) | Arbedion cyffredinol gwirioneddol a gyflawnwyd (£M) | Arbedion cylchol fel % o'r targed arbedion cyffredinol | Arbedion nad ydynt yn gylchol a gyflawnwyd (£M) | Arbedion cylchol a gyflawnwyd (£M) |
|---|---|---|---|---|---|
| 2018-19 | 28 | 28 | 64.3% | 10 | 18 |
| 2019-20 | 16.8 | 15.5 | 56.5% | 6 | 9.5 |
| 2020-21 | 33 | 9.5 | 25% | 1.2 | 8.3 |
| 2021-22 | 16.6 | 16.5 | 66% | 5.5 | 11 |
| 2022-23 | 26.2 | 23 | 19% | 18 | 5 |
| 2023-24 | 51.5 | 43 | 54.3% | 15 | 28 |

Ffynhonnell: Ffurflenni Monitro Misol Llywodraeth Cymru ac Adroddiadau Cyllid y Bwrdd Iechyd

16 Byddai sefyllfa’r Bwrdd Iechyd o ran cyflawni arbedion yn 2023-24 wedi bod yn sylweddol waeth na'r hyn a nodwyd pe bai wedi diweddaru ei darged arbedion cyffredinol i adlewyrchu gofyniad arbedion 10% ychwanegol Llywodraeth Cymru o £11.3 miliwn[5] a'r diffyg ychwanegol o £33 miliwn a nodwyd fel rhan o'i adolygiad canol blwyddyn o Gynllun Blynyddol 2023-24. Er i'r Bwrdd Iechyd adrodd bod

[5] Gosodwyd gofyniad arbedion ychwanegol o 10% Llywodraeth Cymru o £11.3 miliwn i gyflawni diffyg rheoli o £13 miliwn. Roedd yn seiliedig ar Gynllun Blynyddol gwreiddiol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2023-24, a oedd yn rhagweld diffyg o £112 miliwn ac nid y rhagolwg diffyg o £145 miliwn fel rhan o adolygiad canol blwyddyn y Bwrdd Iechyd.

angen gwneud arbedion ychwanegol i fodloni'r gofyniad ychwanegol o 10% yn nhermau cyffredinol a mynd i'r afael â'r diffyg sylfaenol canol blwyddyn uwch, ni wnaeth ddiwygio ei darged arbedion gwreiddiol o £51.5 miliwn i adlewyrchu'r elfennau ychwanegol hyn. O ganlyniad, nid oedd hwn yn rhan o'i adroddiadau arferol ar arbedion i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad (F&PC). Byddai ymgorffori'r targed arbedion ychwanegol wedi rhoi darlun mwy cywir o'r arbedion cyffredinol sydd eu hangen ar gyfer 2023-24, gan arwain at darged arbedion o £96 miliwn a gostyngiad yng nghanran yr arbedion cylchol a gyflawnwyd, o 54.3% i 30%. **(Argymhelliad 4)**

17 Mae cynllunio arbedion y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio'n bennaf ar ei broses gynllunio flynyddol. Fel rhan o'i weithdrefnau rheoli cyllidebol ar gyfer 2023-24, derbyniodd y rhai â chyfrifoldebau cyllidebol adrannol a chyfarwyddiaeth eu targedau arbedion yn ffurfiol drwy'r Llythyr Dirprwyo, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gyflawni arbedion trwy gymysgedd o arbedion generig, penodol, â ffocws ac yn estynedig[6]. Ar gyfer 2024-25, mae'r Bwrdd Iechyd wedi defnyddio proses o bennu cyllideb dwy ran. Roedd y cam cyntaf i ddechrau yn cynnwys dirprwyo'r lefelau cymeradwy i is-adrannau a chyfarwyddiaethau, ac yna ail ddirprwyaeth yn ystod chwarter 1 fel rhan o gwblhau'r arbedion ariannol a'r cynlluniau pwysau cost ar gyfer y flwyddyn. Roedd ail gam y broses o bennu cyllideb i fod i ddigwydd yn ail chwarter 2024-25 a'i nod yw sicrhau bod y targedau arbedion dirprwyedig yn seiliedig ar wybodaeth fwy cadarn.

18 Ym mis Awst 2024, darparodd Archwilio Mewnol sgôr sicrwydd cyffredinol rhesymol ar drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cynllunio arbedion. Er gwaethaf y sefyllfa gymharol gadarnhaol hon, mae sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2024-25 a thu hwnt yn parhau i fod yn heriol o ran cyflawni arbedion.

19 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cychwynnol cadarnhaol i ddatblygu cynllun ariannol tymor byr i dymor canolig. Ym mis Gorffennaf 2024, cymeradwyodd fap llwybr tair blynedd sydd â'r nod o gyflawni cyfanswm rheoli gwerth £13 miliwn erbyn 2025-26 a sicrhau balans ariannol erbyn 2026-27. Bydd y cynllun yn canolbwyntio ar feysydd cyfleoedd allweddol fel y gweithlu, ystadau, ad-drefnu gwasanaethau, ac effeithlonrwydd/gwelliannau o ran cynhyrchiant. Bydd angen adnewyddu map llwybr ariannol y Bwrdd Iechyd fel mater o drefn er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu risgiau mewnol ac allanol ac yn parhau'n gyfredol. Ar adeg ein hadolygiad, roedd y 'cynllun cyflawni' manwl a'r manylion ariannol o fewn y map llwybr yn dal i gael eu datblygu. **(Argymhelliad 5)**

20 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi mewn datblygu sgiliau a galluoedd ariannol i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei arbedion; fodd bynnag, mae angen gwella agweddau

[6] Llythyr Dirprwyo 2023/24 – (a) targed arbedion generig o 0.75% ar gyfer meysydd gweithredol a 0.5% ar gyfer meysydd eraill; (b) cynlluniau arbedion penodol wedi'u cymhwyso pan fo disgwyliad rhesymol o gyflawniad; (c) cyfleoedd â ffocws pan fo arwydd y gellid gwneud arbedion, ond bod angen gwneud rhagor o waith; (d) ymestyn targedau lle bo'n berthnasol, mae'r rhain yn cynnwys meysydd llithriad gwariant a chyllid posibl.

o'i alluoedd ariannol ymhellach. Mae rôl y Partneriaid Busnes Ariannol[7] i gefnogi cyfarwyddiaethau ac is- adrannau o ran cynllunio a chyflenwi arbedion yn cael ei pharchu'n fawr gan uwch swyddogion. Fodd bynnag, er gwaethaf buddsoddiad mewn datblygu rhai offer hyfforddiant ariannol ar-lein cyffredinol, mae lle i gynyddu hyfforddiant cyllid i reolwyr ac arweinwyr. **(Argymhelliad 6)**

## Monitro a goruchwylio cyfleoedd gwella costau

21 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu trefniadau sydd wedi'u datblygu'n dda ar gyfer monitro'r ffordd y mae'n cyflawni arbedion. Mae'r adroddiadau cyllid, sy'n sail i'w adroddiad ar arbedion, yn rhoi crynodeb o'r cynnydd yn erbyn y prif ysgogwyr costau a manylion manwl ar berfformiad arbedion ar draws yr is-adrannau a'r cyfarwyddiaethau yn atodiadau'r adroddiad. Mae'r lefel hon o fanylion yn galluogi'r Bwrdd, y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd, a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad i ddeall cynnydd cyffredinol arbedion ac, os oes angen, craffu ar gynnydd o ran cyflawni arbedion ar lefel fwy manwl.

22 Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith atebolrwydd mewnol cymharol newydd ar waith sydd wedi'i gynllunio i ganiatáu'r Tîm Gweithredol ddwyn cyfarwyddiaethau ac is-adrannau i gyfrif am eu gwasanaeth a'u perfformiad ariannol. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod y fframwaith yn gwbl effeithiol eto, gan fod rhai meysydd (fel Gwasanaethau Corfforaethol a Gofal Wedi'i Gynllunio) yn tangyflawni'n sylweddol yn erbyn eu targedau arbedion. **(Argymhelliad 7)**

23 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cael archwiliad allanol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ynghylch ei gyllid yn dilyn newidiadau i'w statws uwchgyfeirio[8]. Ar gyfer y 'canlyniadau disgwyliedig ar gyfer ei ddull o ymdrin ag arbedion', mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod polisïau a phrosesau cadarn ynghylch arbedion sy'n arwain at gyflawni arbedion trawsnewidiol tymor byr a thymor hwy ar waith. Caiff cynnydd yn erbyn y canlyniadau hyn ei fonitro'n rheolaidd gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ochr yn ochr â chyfarfodydd monitro penodol gyda Thîm Cyllid Llywodraeth Cymru yng Ngweithrediaeth y GIG. Ym mis Medi 2024, adroddodd y Bwrdd Iechyd ei fod yn ymgymryd â gwaith i fynd i'r afael â'i holl amcanion uwchgyfeirio ynghylch Cyllid, Strategaeth a Chynllunio.

24 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi'n glir ei risgiau ariannol strategol ac mae ganddo strwythurau rheoli ariannol priodol ar waith, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Mae'n ymddangos bod y camau lliniaru

[7] Mae'r Partner Busnes Ariannol yn rôl sydd â chyfrifoldeb ar gyfer gweithio gyda'r tîm is-adrannau a chyfarwyddiaethau sy'n darparu cymorth ariannol a gwybodaeth i gefnogi cynllunio a rheoli gweithredol.

[8] Ym mis Ionawr 2024, uwchgyfeiriodd Llywodraeth Cymru y Bwrdd Iechyd i Ymyrraeth wedi'i Thargedu ar gyfer Cyllid, Strategaeth a Chynllunio o dan ei Fframwaith Uwchgyfeirio. Mae hwn wedi gweld lefel uwch o graffu gan Lywodraeth Cymru ar y cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud yn erbyn set ddiffiniedig o 'Ganlyniadau Disgwyliedig'.

a'r rheolaethau ar gyfer y risgiau hyn yn rhesymol, ac fe'u hadolygir yn rheolaidd gan bwyllgorau perthnasol a'r Bwrdd. Fodd bynnag, mae heriau ariannol y Bwrdd Iechyd yn parhau, sy'n awgrymu efallai nad yw'r rheolaethau a'r camau gweithredu yn cael yr effaith a ddymunir. **(Argymhelliad 8)**

25 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod â risg o fewn ei gynlluniau arbedion a nodwyd. Er ei fod wedi nodi'r rhan fwyaf o'i gynlluniau arbedion ar gyfer cyflwyno ei Gynllun Blynyddol ar gyfer 2023-24, roedd 37% o'r arbedion hyn wedi'u categoreiddio fel rhai coch, sy'n golygu eu bod yn cario risg sylweddol o uchel. Roedd 16% o'r cynlluniau risg coch hyn heb eu cyflawni ar ddiwedd 2023-24. Nododd Cynllun Blynyddol 2024-25 y Bwrdd Iechyd fod 89% o'r arbedion naill ai'n gategori gwyrdd neu'n oren, gyda'r gweddill wedi'u categoreiddio fel coch. Er bod hyn yn welliant ar sefyllfa 2023-24, mae'r ffigur arbedion sylfaenol (gweler **paragraff 16**) sydd ei angen i gyflawni cyfanswm rheoli ar gyfer 2024-25 yn sylweddol uwch na tharged arbedion cyfredol y Bwrdd Iechyd. **(Argymhelliad 9)**

26 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhagnodi'n glir brosesau ar waith i werthuso a gwella trefniadau arbedion costau sy'n defnyddio canfyddiadau archwilio ac arfer gorau. Mae Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd y Bwrdd Iechyd a'i offeryn Compendiwm hefyd yn fecanweithiau allweddol a ddefnyddir i rannu mentrau, arfer gorau, a dysgu wrth nodi a chyflawni arbedion. Fodd bynnag, nid yw'r graddau y mae'r Bwrdd Iechyd yn rhannu dysgu ar draws is-adrannau a chyfarwyddiaethau ar gyfer cynlluniau sydd wedi methu â chyflawni neu sydd wedi tanberfformio yn cael eu diffinio'n glir nac yn cael eu cymhwyso'n systematig ar draws y sefydliad. **(Argymhelliad 10)**

# Argymhellion

27 Mae **Arddangosyn 2** yn manylu ar yr argymhellion sy'n codi o'r archwiliad hwn. Crynhoir ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion yn **Atodiad 2**.

**Arddangosyn 2: Argymhellion**

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| A1 | Mae angen i'r Bwrdd Iechyd weithio'n gyflym gyda'i is-adrannau a'i gyfarwyddiaethau i ddatblygu a gweithredu dull mwy cyson o fabwysiadu cyfleoedd arbedion o fewn ei gompendiwm, a fydd hefyd angen cynnwys lefel uwch o arbedion trawsnewidiol, ar draws gwasanaethau ac arbedion cylchol, er mwyn sicrhau bod ei arbedion yn cael eu rhoi ar sail fwy cynaliadwy. **(Paragraff 12 a 15)** |

| **Argymhellion** |
| --- |
| A 2.1 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddangos yn glir sut mae'r syniadau arbedion ac effeithlonrwydd y mae'n eu ceisio oddi wrth ei staff yn cael eu defnyddio wedyn i lywio a llunio cynlluniau arbedion y gellir eu cyflawni. **(Paragraff 13)**<br>A 2.2 Dylai'r Bwrdd Iechyd roi trefniadau clir ar waith i geisio syniadau arbedion ac effeithlonrwydd oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill **(Paragraff 13)** |
| A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn defnyddio ei ddull asesu effaith ansawdd ar gynlluniau arbedion mewn modd cyson. **(Paragraff 14)** |
| A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei ddull o adrodd ar arbedion costau drwy sicrhau bod adroddiadau arbedion i'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn y dyfodol yn mynegi'r holl arbedion y mae angen i'r sefydliad eu cyflawni bob blwyddyn i fodloni cyfanswm diffyg Llywodraeth Cymru. **(Paragraff 16)** |
| A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd barhau i fireinio a diweddaru ei gynllun ariannol tymor canolig (map llwybr) hyd at 2026-27 yn seiliedig ar risgiau cyflenwi mewnol ac allanol a chymryd camau unioni yn gyflym lle mae llithriad yn ei lwybr ariannol arfaethedig. **(Paragraff 19)** |
| A6 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei hyfforddiant a datblygu galluoedd ariannol presennol ar gyfer ei ddeiliaid cyllideb yn ddigon addas i'r diben. **(Paragraff 20)** |
| A7 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei fframwaith perfformiad ac atebolrwydd yn gweithio fel y bwriadwyd, ac yn gweithredu fel dull priodol i reoli tanberfformiad adrannol a chyfarwyddiaeth yn erbyn targedau arbedion. **(Paragraff 22)** |
| A8 Mae angen i'r Bwrdd Iechyd a'i bwyllgorau sicrhau bod ei reolaethau a nodir a'i gamau lliniaru ar gyfer ei risgiau ariannol strategol yn addas i'r diben a bod eu gwaith craffu parhaus yn nodi'n glir gamau adfer lle nad yw'r rheolaethau hyn yn cael yr effaith a ddymunir. **(Paragraff 24)** |
| A9 Dylai'r Bwrdd Iechyd barhau i gryfhau ei ddull o nodi a datblygu cynlluniau arbedion gyda'r bwriad o leihau nifer y cynlluniau sydd â sgôr coch, a chynnal pwyslais ar symud ei gynlluniau coch ac oren i wyrdd. **(Paragraff 25)** |

**Argymhellion**

A10 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei fecanweithiau cyfredol ar gyfer rhannu’r hyn a ddysgwyd ar gynlluniau arbedion i sicrhau ei fod yn casglu ac yna'n lledaenu’r hyn a ddysgwyd o gynlluniau sydd wedi methu neu wedi tangyflawni. **(Paragraff 26)**

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 3** isod yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Mae ein tystiolaeth wedi'i chyfyngu i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau isod.

| Elfen o’r dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Dogfennau | Rydym wedi adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Agendâu, papurau a chofnodion y Bwrdd a'r Pwyllgorau<br>• Strategaethau a chynlluniau sefydliadol allweddol<br>• Data meincnodi arbedion<br>• Dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol<br>• Adroddiadau a chynlluniau allweddol mewn perthynas â chyllid sefydliadol ac arbedion<br>• Adroddiadau a baratowyd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol |
| Cyfweliadau | Gwnaethom gyfweld â'r uwch swyddogion canlynol:<br>• Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Chaffael<br>• Cyfarwyddwr Meddygol a Dirprwy Brif Weithredwr<br>• Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol<br>• Rheolwr Cyffredinol Dros Dro – Gofal Wedi’i Drefnu<br>• Prif Swyddog Gweithredu<br>• Rheolwr Cyffredinol – Is-adran Meddygaeth<br>• Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategaeth a Phartneriaeth<br>• Pennaeth Cynllunio Ariannol Strategol |

| Elfen o’r dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Arsylwadau | • Pwyllgor Cyllid a Chynllunio |

# Atodiad 2

## Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio

**Arddangosyn 4:** Ymateb rheolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i'n hargymhellion archwilio.

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A1 | Mae angen i'r Bwrdd Iechyd weithio'n gyflym gyda'i is-adrannau a'i gyfarwyddiaethau i ddatblygu a gweithredu dull mwy cyson o fabwysiadu cyfleoedd arbedion o fewn ei gompendiwm, a fydd hefyd angen cynnwys lefel uwch o arbedion trawsnewidiol, ar draws gwasanaethau ac arbedion cylchol, er mwyn sicrhau bod ei arbedion yn cael eu rhoi ar sail fwy cynaliadwy. | Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i boblogi a hyrwyddo'r 'Compendiwm Cyfleoedd' gyda gwybodaeth meincnodi gyfoes gyda gwybodaeth o sawl ffynhonnell, gan gynnwys CHKS, GIRFT, Ffurflenni Costau Blynyddol a rhwydwaith Meincnodi'r GIG, yn ogystal ag enghreifftiau a chanllawiau eraill o arfer gorau gan gynnwys VAULT GIG Cymru ac argymhellion y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd Cenedlaethol.<br>Datblygwyd yr adnodd hwn drwy'r Gyfarwyddiaeth Gyllid dros nifer o flynyddoedd ac mae'n cael ei rannu a'i gyfleu'n rheolaidd i'r Tîm Gweithredol, gwasanaethau Adrannol fel rhan o ystyriaethau cynllunio o fewn blwyddyn a blynyddol, y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, a'r Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd. | Wedi'i gwblhau fel rhan o'r broses bresennol | Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae buddsoddiadau gweithredol, newidiadau a chynlluniau gwella yn cynnwys asesiad o feincnodau a chymaryddion fel rhan o werthuso.<br>Gallai'r cyfleoedd hyn effeithio ar arbedion lefel system ac arbenigedd, gan gynnwys cynaliadwyedd gwasanaeth tymor byr a thymor hir o gynhyrchiant theatr i resymoli gwelyau posibl ac felly gostyngiadau mewn safleoedd.<br>Y disgwyl yw y bydd deiliaid cyllideb yn adolygu, yn ystyried ac yn nodi camau gweithredu i weithredu newidiadau priodol i sicrhau gwell effeithlonrwydd a lleihau costau, gan gynnal gofal diogel i gleifion ar yr un pryd.<br>Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i hyrwyddo'r adnodd fel ffynhonnell cyfleoedd gwella ac yn disgwyl i ddeiliaid cyllideb a rheolwyr gwasanaethau ei ddefnyddio i nodi a darparu buddion ariannol a darparu effeithlonrwydd. | | |
| A2 | A2.1 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddangos yn glir sut mae'r syniadau arbedion ac effeithlonrwydd y mae'n eu ceisio oddi wrth ei staff yn cael eu defnyddio wedyn i lywio a llunio cynlluniau arbedion y gellir eu cyflawni. | Mae'r gyfran gyntaf o syniadau arbedion gan staff wedi cael eu hadolygu a'u hasesu gan arweinwyr gweithredol thema Gwerth a Chynaliadwyedd y Bwrdd Iechyd. Nododd y llu o syniadau a dderbyniwyd lawer o faterion a oedd yn cael eu datblygu lle bo hynny'n briodol ac roedd syniadau newydd yn cael eu rhannu'n uniongyrchol ag arweinwyr gwasanaeth i'w hystyried. Rhoddir adborth ar fentrau allweddol trwy friffiau'r Prif Swyddog Gweithredol a bydd amlder hyn yn cael ei gynyddu. Mae ail ymarfer i adolygu syniadau mwy diweddar a dderbyniwyd yn cael ei ddatblygu. Yn ogystal, darperir diweddariadau rheolaidd ar | Mawrth 2025 | Cyfarwyddwyr Gweithredol Arweiniol Thema'r Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | A2.2 Dylai'r bwrdd Iechyd roi trefniadau clir ar waith i geisio syniadau arbedion ac effeithlonrwydd oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill | gyllid ac arbedion i'r 'ochr staff' yng nghyfarfodydd Fforwm Partneriaeth yr Undebau Llafur.<br>Mae trefniadau i nodi cyfleoedd i wella gan gleifion a rhanddeiliaid yn seiliedig ar ystod o ddulliau, gan gynnwys cyfranogiad cleifion mewn ymgynghoriadau, gwaith prosiect penodol (e.e. prosiectau gofal iechyd seiliedig ar werth) a derbyn adborth gan Llais. Mae cyfleoedd hefyd i ddysgu oddi wrth ganmoliaeth a chwynion cleifion yn cael eu hystyried yn rhan o ddysgu ar draws yr holl wasanaethau. Defnyddir straeon cleifion hefyd fel mecanwaith i nodi arfer da.<br>Rydym hefyd yn hyrwyddo ymgyrch Comisiwn Bevan, 'Rheolau Gwirion' o fewn y sefydliad, gan annog defnyddwyr gwasanaethau, rhanddeiliaid a staff i nodi cyfleoedd, drwy adolygu 'rheolau gwirion' i wella, symleiddio neu ddileu camau, gofynion neu brosesau lle bo hynny'n briodol. Byddwn yn adolygu canlyniad y gwaith hwn i weld a oes cyfleoedd lleol. | | |
| A3 | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn defnyddio ei ddull asesu effaith ansawdd ar gynlluniau arbedion mewn modd cyson. | Datblygwyd proses Gweithgaredd Gwella Ansawdd (QIA) BIPAB a'i chymeradwyo'n ffurfiol gan y Bwrdd ym mis Medi 2023, dyma'r broses y mae'n ofynnol i bob cynnig arbedion ei datblygu os ydynt yn debygol o gael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth o ofal cleifion. Mae canllawiau ar y cais a'r meini prawf ar gyfer y broses arbedion a QIA wedi'u rhannu gan arweinwyr Cynllunio fel rhan o'r broses gynllunio Flynyddol, hefyd mae'r tîm Gweithredol yn adolygu arbedion i sicrhau bod y broses yn cael ei dilyn yn briodol. | Wedi'i gwblhau fel rhan o'r broses bresennol | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Phartneriaethau |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A4 | Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei ddull o adrodd ar arbedion costau drwy sicrhau bod adroddiadau arbedion i'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn y dyfodol yn mynegi'r holl arbedion y mae angen i'r sefydliad eu cyflawni bob blwyddyn i fodloni cyfanswm diffyg Llywodraeth Cymru. | Mae gan y Bwrdd fecanweithiau arfer gorau wedi hen sefydlu ar gyfer adrodd yn dryloyw am y sefyllfa ariannol ac arbedion a ragwelir sydd wedi bod yn destun adolygiad gan Lywodraeth Cymru ac archwilio.<br>Mae adroddiadau ar arbedion y Bwrdd Iechyd yn cyd-fynd â chanllawiau a gofynion cyfundrefn rheoli ariannol Llywodraeth Cymru.<br>Mae rhagolygon gwariant cyffredinol y bwrdd iechyd uwch na'r lefelau a ariennir, o'i gymharu â lefel yr arbedion a gynllunnir yn nodi diffyg wrth i'r Bwrdd Iechyd ragweld diffyg. Adroddir am hyn yn erbyn y ddyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb yn ogystal â nodi'n glir y gymhariaeth â'r cyfanswm rheoli a bennir gan Lywodraeth Cymru. | Bydd adroddiadau'r Bwrdd Iechyd yn parhau yn y fformat presennol sy'n cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac arfer gorau. | Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol |
| A5 | Dylai'r Bwrdd Iechyd barhau i fireinio a diweddaru ei gynllun ariannol tymor canolig (map llwybr) hyd at 2026-27 yn seiliedig ar risgiau cyflenwi mewnol ac allanol a chymryd camau unioni yn gyflym lle mae llithriad yn ei lwybr ariannol arfaethedig. | Cymeradwywyd 'Map llwybr tuag at adferiad' y Bwrdd Iechyd ym mis Gorffennaf 2024, fel rhan o broses nodi arbedion y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd a'r broses gynllunio flynyddol y bydd y camau manwl yn cael eu datblygu ymhellach.<br>Bydd proses gynllunio 2025/26 yn cadarnhau'r cynllun cyflawni yn erbyn y map llwybr. | Mawrth 2025 | Prif Swyddog Gweithredol<br>a<br>Chyfarwyddwr Cyllid Gweithredol |
| A6 | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei hyfforddiant a datblygu galluoedd ariannol presennol ar gyfer ei ddeiliaid cyllideb yn ddigon addas i'r diben. | Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o gynigion addysg, hyfforddiant, canllawiau a datblygu ar gyfer staff i wella craffter ariannol a busnes, ystyrir bod y rhain yn addas i'r diben ac yn cael eu hadolygu ac fe ychwanegir atynt yn rheolaidd. Datblygwyd llawer o'r rhain o ganlyniad i'r Bwrdd | Wedi'i gwblhau fel rhan o'r broses bresennol. | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid /<br>Cyfarwyddwr Gweithredol y |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | | yn dod yn ymwybodol o'r angen am welliannau mewn rhai galluoedd cyllideb staff a rheoli busnes.<br>Mae'r portffolio presennol yn cynnwys:<br>• Hyfforddiant cynefino gan gynnwys Gweithdrefnau Rheoli Ariannol<br>• Hyfforddiant system gyllid deiliad cyllideb newydd penodol<br>• Hyfforddiant caffael deiliad cyllideb newydd penodol<br>• Hyfforddiant cofnod staff electronig penodol<br>• Offeryn e-ddysgu rheoli cyllideb<br>• Hyfforddiant rheoli rhestr waith<br>• Hyfforddiant cynllunio Swyddi Meddygol<br>• Sesiynau hyfforddi diweddaru caffael<br>• Hyfforddiant ymwybyddiaeth rheoli contract Ymarferydd Cyswllt Cyntaf (FCP)<br>• Hyfforddiant Gwrth-dwyll<br>• Rhaglen hyfforddiant busnes Cyfarwyddwr Clinigol (CDx)<br>• Rhaglen hyfforddiant Rheolwr Cyfarwyddiaeth (DMx)<br>• Canllawiau cynnwys/proses Achos Busnes<br>• Offer hunanasesu llywodraethu a rheoli<br>• Rhaglen hyfforddi Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth<br>• Rhaglen hyfforddi Gwella Ansawdd<br>Hefyd, hyfforddiant pwrpasol neu a ailgynhelir ar gais neu'n berthnasol i anghenion busnes a ddarperir gan bartneriaid busnes arbenigol. | | Gweithlu a Datblygu Sefydliadol/<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | | Yn ogystal, bydd y Bwrdd yn archwilio prosesau recriwtio i sicrhau bod cymwyseddau ariannol yn cael eu profi'n ddigonol. Rydym hefyd yn gweithio gydag AaGIC i gyfrannu at ddatblygu fframwaith ar gyfer cymwyseddau rheoli, y bydd angen i graffter ariannol a busnes ynghyd â rheoli cyllideb fod yn rhan annatod ohono. | | |
| A7 | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei fframwaith perfformiad ac atebolrwydd yn gweithio fel y bwriadwyd ac yn gweithredu fel dull priodol i reoli tanberfformiad is-adrannau a chyfarwyddiaeth yn erbyn targedau arbedion. | Mae'r Bwrdd wedi sefydlu fframwaith perfformiad ac atebolrwydd sy'n gweithredu asesiad o berfformiad a all alw am drefniadau uwchgyfeirio’r rheolwyr pan nad yw perfformiad yr hyn a ddisgwylir. Cymeradwywyd y fframwaith hwn gan y Bwrdd ym mis Medi 2023. Mae hyn yn cynnwys perfformiad ariannol a fesurir gan amrywiant cyllideb deiliad y gyllideb.<br>Pan nodir perfformiad anffafriol, a bod sbardunau'n cael eu bodloni, gall deiliad y gyllideb fod yn destun mesurau uwchgyfeirio. Mae hyn yn cael ei drafod gan y tîm gweithredol.<br>Mae perfformiad cyflawni arbedion yn elfen o'r broses hon, fodd bynnag, rhoddir mwy o bwyslais ar hyn fel rhan o adroddiadau sicrwydd adrannol ac adroddiad y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd.<br>Bydd y trefniadau Perfformiad ac Atebolrwydd yn cael eu hadolygu fel rhan o'r adolygiad 12 mis o'r Fframwaith Rheoli Perfformiad. | Mai 2025 | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Phartneriaethau |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A8 | Mae angen i'r Bwrdd Iechyd a'i bwyllgorau sicrhau bod ei reolaethau a nodir a'i gamau lliniaru ar gyfer ei risgiau ariannol strategol yn addas i'r diben a bod eu gwaith craffu parhaus yn nodi'n glir gamau adfer lle nad yw'r rheolaethau hyn yn cael yr effaith a ddymunir. | Fel mesur syml o effeithiolrwydd y system a chyflawni'r effaith a ddymunir, nodir yr arsylwad, gan fod y Bwrdd yn adrodd diffyg.<br>Byddai'r Bwrdd yn gwerthfawrogi eglurder ynghylch asesu pa un ai’r rheolaethau a sefydlwyd neu'r camau unioni yw’r mater i alluogi'r camau unioni priodol i gael eu datblygu.<br>Mae'r Bwrdd yn derbyn y gellir cyflawni arbedion pellach a bydd angen eu cyflawni, fodd bynnag, ni all y Bwrdd wneud arbedion heb gyfeirio at y cyd-destun y mae'n gweithredu ynddo, er enghraifft ymateb i bwysau system a chyflawni targedau gofal a gynlluniwyd y llywodraeth, rhai ohonynt yn cael eu hysgogi'n allanol y tu hwnt i reolaeth y bwrdd iechyd e.e. galw brys ac argaeledd gofal cymdeithasol.<br>Diogelwch cleifion yw prif amcan y bwrdd iechyd.<br>Gweler yr ymateb i R7 uchod sy'n cyfeirio at adolygiad o'n fframwaith perfformiad ac atebolrwydd sy'n ffurfio rhan o’r gwaith o wella'r ddarpariaeth. | Cwblhawyd – Bydd mecanweithiau llywodraethu presennol yn parhau. | Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol |
| A9 | Dylai'r Bwrdd Iechyd barhau i gryfhau ei ddull o nodi a datblygu cynlluniau arbedion gyda'r bwriad o leihau nifer y cynlluniau sydd â sgôr coch, a chynnal pwyslais ar symud ei gynlluniau coch ac oren i wyrdd. | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni rhai o'r arbedion gwerth uchaf ledled Cymru ar gyfer 2023/24 a dyna a ddisgwylir ar gyfer 2024/25. Bydd y Bwrdd yn parhau i nodi cyfleoedd i weld cynnydd o ran arbedion ac effeithlonrwydd o dan ei fecanweithiau'r Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd presennol, gyda chynnydd pellach mewn cyflawni drwy arweinwyr cyllideb dirprwyedig a thrwy drefniadau'r fframwaith atebolrwydd.<br>Bydd y map llwybr tuag at adferiad yn llywio themâu strategol ynghyd â ffrydiau gwaith rhaglenni allweddol. | Wedi’i gwblhau | Cyfarwyddwyr Gweithredol Arweiniol Thema’r<br>Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | | Bydd ffactorau allanol y cyfeirir atynt mewn ymateb i R7 yn dylanwadu ar gyflymder y cyflawniad. | | |
| A10 | Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei fecanweithiau cyfredol ar gyfer rhannu'r hyn a ddysgwyd ar gynlluniau arbedion i sicrhau ei fod yn casglu ac yna'n lledaenu'r hyn a ddysgwyd o gynlluniau sydd wedi methu neu wedi tangyflawni. | Mae gan y Bwrdd fecanwaith sefydledig ar gyfer adrodd statws pob cynllun arbed, caiff yr adroddiadau hyn eu rhannu â holl ddeiliaid cyllideb fel rhan o broses y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd, a thrafodir cynlluniau llwyddiannus ac aflwyddiannus er mwyn hyrwyddo dysgu a rennir. Lle mae cynlluniau gwerth uchel yn methu, caiff y rhain eu hystyried a'u hadolygu'n benodol ymhellach i benderfynu pa gamau lliniaru a allai fod yn bosibl. | Wedi'i gwblhau fel rhan o'r broses bresennol | Cyfarwyddwyr Gweithredol Arweiniol Thema'r Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.